Cofnodion cyfarfod rhithiol 12 Rhagfyr 2022 a gynhaliwyd am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Eifion Williams		
Meleri Jones	Emyr Gareth	
Cynog Prys	Llyr Evans	
Eleri Wyn Thomas		
Daniel Llywelyn Williams		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Eifion Williams, Is-Gadeirydd y Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Iwan Huws, Nel Huws a Dafydd Huws.	**CLERC**
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	**CLERC**
1.2	Newidiadau arfaethedig i derfynau Cyflymder – trafodwyd y mater o newid terfyn 20 mya ar hyd Ffordd Caernarfon a Stryd Bangor drwy y Felinheli. Penderfynwyd bod ochr Bangor yn dderbyniol ond bod angen sicrhau bod y cyfyngiad 20mya ochr Gaernarfon yn cychwyn ochr Gaernarfon i Ffordd Tafangrisiau. Byddai hyn yn sicrhau bod llwybrau cerdded i'r Ysgol a cherdded I safleoedd bysiau i ddal bysiau Ysgol o fewn y terfyn 20 mya. Y Clerc i anfon sylwadau'r Cyngor i Gyngor Gwynedd.	**CLERC**
1.3	Pwyllgorau – roedd y nifer o gynghorwyr fel aelodau o bwyllgorau y Cyngor yn llai a'r rai na'r lleill. Penderfynwyd ar y Canlynol:	**CLERC**
1.4	Dyfodol Cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth: penderfynwyd byddai'r Cyngor yn gadael yr ymateb i unllais.	**CLERC**
2.0	**DECLARATION OF INTEREST**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Tachwedd 2022 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cyflwynwyd cyllideb drafft 2023-2024, roedd yn amlwg nad oedd angen codi'r praesept am y flwyddyn ariannol 2023-2024. Bydda hyn yn cael ei gadarnhau'r mis Ionawr wedi ystyriaeth am gael ei roi i unrhyw brosiectau arfaethedig o fewn y cyfnod ariannol hynny, gan gofio bydd prosiect y Cae Chwarae wedi ei gwblhau.	
3.3	Contract torri gwair – fel arfer fe hysbysir bod cytundeb torri gwair (3 mlynedd) ar gael ar gyfer y fynwent a llwybrau cygoeddus pob tair mlynedd ac eleni bydd angen cyflwyno contract newydd. Dywedodd y Clerc bod cael contractwyr i dendro wedi bod yn anodd iawn ar hyd y cyfnod roedd wedi bod gyda'r Cyngor ac mae'r un contractor oedd wedi bod y llwyddiannus; hefyd roedd pris am y gwaith yn rhesymol o gymharu a beth mae cynghorau Cymuned cyfagos eraill yn ei dalu. Penderfynwyd gwell fyddai gofyn yn flynyddol am bris i'r contractor presennol. Er mwyn gweithredu'n wahannol fe gynnigwyd y drefn wahannol gan y Cynghorydd Eifion	**CLERC**

	Williams, eilwyd y cynig gan y Cynghorydd Elenid Glyn gyda y Cyngor yn dangos eu cyntundeb. Y Clerc i drafod y mater a'r contractor.	
3.4	Cymorth ariannol Adran 137. Penderfynwyd hysbysu bod y Cyngor yn derbyn ceisiadau am gymorth ariannol hyd nes y 7fed o Chwefror 2023. Y Clerc i drefnu hysbyseb.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Tachwedd 2022 ar ôl fan newidiadau fel rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Cae Chwarae Lan y Môr – gweler cofnod 7.1	**CLERC**
4.3	Wi-Fi – deallir bod Menter Môn yn gallu rhoi cymorth gogyfer wifi cymunedol. Y Clerc i wneud ymholiadau.	
4.4	Bwyd Bendigedig – Bwrdd Picnic yn y Cae Chwarae Lan y Môr. Mae'r mater yma yn cael eu cydgordio rhwng Bwyd Bendigedig, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned gan y Cynghorydd Dan Williams.	**CLERC DW**
4.5	Brwydr Moel y Don - gobeithir gosod QR code ar y safle sydd yn rhoddi gwybodaeth am y frwydr a hefyd bod yr Ysgol Gynradd yn gallu ymddiried mewn prosiect am y digwyddiad a bod y gwaith hwnnw yn gallu cael ei roi ar y QR code hefyd. Mae'r Ysgol ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer cyngerdd y Nadolig. Y Clerc i drafod y mater gyda'r Brifathrawes yn y flwyddyn newydd. Hefyd mae'r Clerc mewn cysylltiad â'r cyn Gynghorydd Casi Roberts er mwyn dod o hyd i lun o'r llechen coffa o fewn archif lluniau'r diweddar Len Williams.	**CLERC**
4.6	Fainc Coffa - dywedodd y Clerc bod newid wedi bod mewn gosod coeden er cof am blentyn oherwydd nid oedd y teulu eisiau coeden ffrwyth ond byddent yn hoffi gwneud cais am fainc o fewn y fynwent. Nid oedd gwrthwynebiad i hyn ond penderfynwyd byddai angen i Bwyllgor asedau gyfarfod i drafod lleoliad.	**CLERC ASEDAU**
4.7	Ffens y Fynwent – dywedodd y Cynghorydd Eifion Williams ei fod wedi gofyn am bris i wneud y gwaith ond nid oedd wedi ei dderbyn hyd yma. Y Cynghorydd am wneud cais i dderbyn y wybodaeth.	**EW**
4.8	Bin compost y Fynwent – dywedodd y Clerc bod Bwyd Bendigedig am ddefnyddio'r pridd. Cyn gynted a bydd hyn wedi ei wneud bydd modd i'r bin gael ei dynnu i ffwrdd oddi wrth y lleoliad.	**CLERC**
4.9	Bwa yn y wal gynnal Ffordd Gaernarfon - y mater wedi ei anfon at Priffyrdd Gwynedd am sylw - dim ymateb wedi bod hyd yma. Y Clerc i anfon ato at Priffyrdd.	**CLERC**
4.10	Cafwyd adroddiad bod arwydd oedd yn cyfeirio at y Fynwent wedi diflannu ers bod newidiadau wedi bod i gylchfan Plas Menai ac ail leoli cyffordd i'r Fynwent. Y Clerc I Anfon at Asiant Cefnffyrdd.	**CLERC**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Achos: Y22/0890 Lleoliad : Tir Ger Y Wern, , Y Felinheli, , LL56 4TZ	

	Manylion : Datblygiad o 57 o dai fforddiadwy (50% cymdeithasol a 50% canolradd) mewn ddau rhan ynghyd a gwaith cysylltiedig. Roedd y Cyngor yn falch bod cynllun i godi tai ar gyfer pobl y gymuned drwy godi tai cymdeithasol. Er hynny roeddynt eisiau nodi eu consyrn ynglŷn ag effaith codi cymaint o dai o fewn y gymuned fel beth olygai codiad mewn niferoedd plant oed Ysgol gynradd i'r Ysgol Gynradd y Felinheli a hefyd i godiad mewn niferoedd ym mhoblogaeth y pentref i'r feddygfa. Yn sgil codi cymaint o dai mae consyrn hefyd ynglŷn ag effaith yr adeiladwaith ar y tir a'r cyrsiau dŵr i dderbyn dŵr wyneb a'r risg o lifogydd neu lithriadau tir.	
5.2	Rhif Cais: C22/1127/20/LL Lleoliad : Cyngor Gwynedd, Ysgol Y Felinheli Y Wern, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4TZ Bwriad : Estyniadau a newidiadau i'r Ysgol Gynradd bresennol. **DIM GWRTHWYNEBIAD** - Nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ond maent am wneud sylw bod cyfle yn cael ei golli i wneud newidiadau gogyfer y gallu i dderbyn codiad niferoedd plant yn sgil datblygiad o godi tai tu gefn i'r Wern.	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
6.2	Dywedodd y Clerc bod angen sicrhau bod polisi Adran 6 bioamrywiaeth angen ei wneud gan y Cyngor. Hefyd mae templed wedi ei dderbyn gan Unllais gogyfer gweld sut mae'r Cyngor yn ymddangos gyda'u trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith. Mae'r templed wedi ei lenwi gan y Clerc ond bydd angen i'r Pwyllgor edrych ar y ddogfen a'i drafod ac yna adrodd yn ôl i'r Cyngor. Gobeithir trefnu cyfarfod er mwyn sicrhau mabwysiadau angenrheidiol yn y Cyfarfod Blynyddol. Y Clerc i sicrhau bod y Cynghorydd Cynog Prys yn derbyn gwahoddiad.	**CLERC**
7.0	**ASEDAU**	
7.1	Cafwyd adroddiad llafar am y sefyllfa ddiweddaraf gan y Cynghorydd Emyr Gareth. Mae ymweliad safle wedi bod gan Neil Pigdon o Sunshine fel cynrychiolydd Kompan. Mae wedi anfon adroddiad yn datgan yr un gwallau a'r hyn sydd wedi ei ddatgan gan RoSPA ond mae angen i'r adroddiad fod ar bapur busnes priodol. Roedd cais wedi ei wneud am bris i wneud y gwaith yn iawn - nid yw pris wedi ei dderbyn i ddyddiad. Y Cynghorydd Emyr Gareth i barhau i arwain ar y mater. Nid yw Gwynedd wedi ymateb i gais y Cyngor i dynnu i lawr y ffens diogelwch er mwyn i'r Cae Chwarae gael ei agor.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Y Cynghorydd Emyr Gareth yn parhau i weithio ar yr adroddiad blynyddol.	**EG**

9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Y neuadd Goffa – adroddiad llafar gan y Cynghorydd Dan Williams . Defnyddwyr yn gwneud defnydd rheolaidd o'r Neuadd. Mae gwaith ar y toiled wedi ei gwblhau. Mae gwaith angen ei wneud ar y pillar ochr Bangor a disgwylir bydd dyddiad gwneud y gwaith yn cael ei benderfynu yn fuan. Mae angen rhywfaint o waith angen i'w wneud ar y llawr ochr Bangor ger y Fynedfa dân a'r drws i'r balconi. Mae angen newid y goleuadau i LED ac rydym yn disgwyl pris am rheiny gan Owen & Palmer. Bydd angen rhoi jet wash i lwybrau tu allan i'r neuadd, gobeithir trefnu dyddiad i hyn yn fuan. Mae angen adeiladu sound boards o fewn y neuadd a gobeithir bydd y gwaith yma yn gallu cael ei wneud gan rhai o aelodau'r Pwyllgor.	**DW**
9.2	Cloc - mae gwlybaniaeth i weld yn dod i mewn i'r cloc ac wedi difrodi'r trawstiau. Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r Cynghorydd Dan William i gysylltu â Peter Wray y pensaer i ofyn am ymweliad safle a chyngor sut i ddelio a'r mater.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
10.1	Mae'r giatiau wedi eu cau yn ddiweddar. Mae ychydig o waith ar y giât wedi i gontractwr agor y giât heb ei chodi. Mae ymwybyddiaeth o angen cau'r giatiau yn gweithio ac mae'r tîm sydd yn gyfrifol o gau'r giatiau yn gweithredu yn dda. Mae newid wedi ei wneud i ddull gweithio (Method Statement) gan Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am gau giât sydd ar y brifffordd. Mae hyn hefyd wedi ei nodi yn yr asesiad risg. Mae hyfforddiant blynyddol wedi ei wneud a Chyngor Gwynedd a bydd angen i'r Cynghorydd Dan Williams sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei roi i'r rhai oedd yn methu bod yn bresennol. Angen gwneud asesiadau risg ar y lleoliad tu fewn i'r pentref.	**DW**
11.0	**MATERION YCHWANNEGOL**	
11.1	Perderfynwyd bod cofnodion y Cyngor yn cael eu hafnon yn fisol er gwybodaeth at y Cynghorydd Sir Sasha williams.	
11.2	Adroddiad wedi ei dderbyn bod golau stryd oedd ym mhen stryd Penceunant wedi diflanu – Y Clerc i gysylttu a Golau Stryd Cyngor Gwynedd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:** **10/1/2023**